

Awgrymiadau anhygoel ar gyfer Diwrnod Ystafell Ddosbarth Tu Allan

Mae Diwrnod Ystafell Ddosbarth Tu Allan yn ddiwrnod i blant ym mhobman fwynhau dysgu a chwarae'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae ysgolion yn addo treulio o leiaf un wers y tu allan ac mae Chwarae Cymru'n annog ysgolion i neilltuo'r diwrnod ar gyfer chwarae.

Dyma ein hawgrymiadau anhygoel ar gyfer Diwrnod Ystafell Ddosbarth Tu Allan chwareus!

1 Fyddwch chi ddim angen cynllun gweithgareddau manwl. Os allwch chi gymryd cam yn ôl a goruchwyllo o bell, bydd y plant yn fwy tebygol o chwarae yn eu ffordd eu hunain ac ennill buddiannau arbrofi a phrofi pethau drostynt eu hunain.

2 Diffinnir rhannau rhydd fel deunyddiau naturiol a synthetig sydd â dim pwrpas penodol. Gofynnwch i rieni a chydweithwyr helpu trwy gasglu adnoddau fel: ffabrig, landeri, tiwbiau a bocsys cardbord, teiars, brigau, tarpolinau, cortyn a rhaffau. Bydd y plant yn greadigol iawn o gael llonydd i chwarae gyda'r adnoddau hyn. Dysgwch fwy am ddarparu rhannau rhydd i gefnogi chwarae plant yn yr ysgol yn ein taflen wybodaeth: www.chwarae.cymru/adnoddau-ar-gyfer-chwarae-darparu-rhannau-rhydd-i-gefnogi-chwarae-plant/

3 Mae plant yn rhyfeddu at natur, felly meddylwch am adnoddau sy'n caniatáu i blant archwilio'r pedair elfen yn eu chwarae:

- **Daear** – teisennau mwd, tywod, clai neu dyllu
- **Awyr** – barcutiaid, swigod neu faneri
- **Tân** – addurno canhwyllau, rhostio malws melys neu goginio dros dân gwerysll

- **Dŵr** – pibelli dŵr, bwcedi, sbwnjis neu ganiau dŵr.

4 Gwnewch yn siŵr bod y plant yn barod trwy roi gwybod i'r rhieni am eich cynlluniau. Anogwch y plant i wisgo hen ddillad a bod yn barod beth bynnag fo'r tywydd.

5 Gwnewch yn siŵr bod y rhieni'n deall bod hwn yn ddiwrnod gwahanol a bod eu plant yn debygol o faeddu. Dyma gyfle gwyh i atgoffa rhieni bod chwarae'r tu allan a baeddu'n hynod o fuddiol i les corfforol ac emosiynol plant.



6 Os rhoddwch chi ddigon o **amser** i blant, byddant yn chwarae a bod yn greadigol. Ystyriwch neilltuo o leiaf hanner Diwrnod Ystafell Ddosbarth Tu Allan ar gyfer chwarae.

7 Os rhoddwch chi **ganiatâd** i blant chwarae, maent yn fwy tebygol o chwarae yn eu ffordd eu hunain. Efallai y bydd angen ichi gytuno ar rywfaint o reolau cyffredinol gyda'r oedolion fydd yn goruchwyllo ond, fel arall, gadewch i'r plant benderfynu'r hyn sy'n briodol trwy gamu'n ôl.

8 Os rhoddwch chi ddigon o **le** i blant, bydd yn cefnogi ystod eang o brofiadau chwarae. Os oes gennych gae ysgol, dyma'r amser ichi ei ddefnyddio! Os nad oes gennych gae ysgol, meddyliwch am fannau eraill y gellid eu defnyddio – fel y maes parcio neu beth am ymweld â rhywle cyfagos sydd â digonedd o le i archwilio a chwarae.

9 Os oes gennych dîm datblygu chwarae lleol, cysylltwch â nhw gan y gallan nhw eich cyngori am syniadau i wneud Diwrnod Ystafell Ddosbarth Awyr Agored yn un chwareus.

10 Mwynhewch! Dylai neilltuo Diwrnod Ystafell Ddosbarth Tu Allan ar gyfer chwarae fod yn hwyl i blant ac oedolion. Camwch yn ôl ac arsylwi'r profiadau anhygoel gaiff y plant wrth chwarae, fe'i gwelwch yn dysgu, yn trin a thrafod ac yn mwynhau eu hunain.

11 Yn olaf, gofynnwch i'r plant beth oedden nhw'n ei feddwl o'r diwrnod. Os oedd e'n llwyddiant, meddyliwch sut y gallech gynnwys mwy o amser ar gyfer profiadau awyr agored bob dydd.



Chwarae Cymru
Play Wales

www.chwarae.cymru

Elusen cofrestredig, rhif 1068926

© Chwarae Cymru

Tachwedd 2019